**Cwestiynau Cyffredin - Newidiadau i'r Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned (Pryd ar Glud)**

**Pam fod y Cyngor yn ystyried gwneud y newidiadau yma?**
Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol ac rydyn ni'n ystyried ailfodelu amrywiaeth o feysydd gwasanaeth er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg cyllid.

**Beth yw'r cynigion ar gyfer Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned?**

Rydyn ni'n ystyried pedwar opsiwn gwahanol: -

**Opsiwn 1:** parhau â'r gwasanaeth fel y mae ar hyn o bryd,
ond gyda chostau uwch i ddefnyddwyr y gwasanaeth.
**Opsiwn 2:** ad-drefnu'r gwasanaeth mewnol cyfredol, gan gynyddu'r costau i ddefnyddwyr y gwasanaeth
**Opsiwn 3 (Yr Opsiwn a Ffefrir gan y Cyngor): Ad-drefnu'r gwasanaeth mewnol cyfredol, a darparu Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned sy'n cludo pryd o fwyd twym/wedi'i rewi i gartrefi defnyddwyr y gwasanaeth. Byddai'r opsiwn yma'n cynyddu'r costau i ddefnyddwyr y gwasanaeth.**
**Opsiwn 4:** rhoi’r gorau i gynnig y gwasanaeth presennol a helpu defnyddwyr y gwasanaeth i ddod o hyd i opsiynau eraill.

**A fydd fy mhryd yn dal i gael ei goginio ar fy rhan a'i ddosbarthu i'm tŷ?**
Bydd darparwr allanol yn dod â phrydau parod i'n Ceginau Prydau yn y Gymuned. Wedyn, byddwn ni'n twymo'r prydau ac yn eu cludo i'ch cartref, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 11.30am a 2.00pm.

**A fydd yr un gyrrwr yn dal i gludo'r pryd i'm cartref?**
Bydd gyrwyr y Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned yn dal i gludo'r bwyd i'ch cartref, ond efallai y bydd eich gweithiwr arferol yn newid.

**Beth fydd yn digwydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul?**
Fydd dim newid i'ch prydau dros y penwythnos. Bydd pryd wedi'i rewi, a phwdin yn cael ei gludo i chi ar ddydd Gwener, yn barod ar gyfer y penwythnos.

**Oes modd i mi gael pryd wedi'i rewi i'w dwymo gartref yn ystod yr wythnos?**

Oes - bydd modd i ni ddarparu prydau wedi'u rhewi sy'n rhoi cyfle i chi gynhesu'r bwyd pan fyddwch chi'n barod, yn hytrach na chael eich cyfyngu gan amser dosbarthu'r bwyd.

**Faint fydd yn rhaid i mi dalu am fy mhryd o dan y cynnig newydd?**
£4.05 yw cost pryd o fwyd twym a phwdin ar hyn o bryd. Mae'r cynnig newydd yn cynnwys cynnydd o 50c fesul pryd i ddefnyddwyr y gwasanaeth, a fyddai'n codi pris y pryd twym a phwdin o £4.05 i £4.55. Byddai pryd o fwyd wedi'i rewi a phwdin hefyd yn costio £4.55.

**A fydda i'n yn archebu fy mhrydau yn yr un modd?**
Fydd dim newid i'r ffordd y byddwch chi'n cysylltu â ni ac yn archebu eich prydau bwyd. Mae modd i chi ffonio'r swyddfa ar 01443 281140 o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu gael sgwrs â'r gweithiwr sy'n cludo'ch prydau i'ch cartref. Gallwch chi hefyd e-bostio PrydarGlud@rctcbc.gov.uk.

**Oes modd i mi barhau i ddilyn diet therapiwtig arbennig?**
Oes, gallwn ddarparu amrywiaeth o brydau sy'n diwallu'ch anghenion o ran diet neu wead y bwyd. Ffoniwch y swyddfa neu siaradwch â'r gweithiwr Prydau yn y Gymuned sy'n cludo'ch bwyd i chi am ragor o wybodaeth.

**Sut y byddaf i'n talu am fy mhryd?**
Byddwn ni'n parhau i anfon anfoneb fisol atoch. Mae modd i chi ei thalu dros y ffôn, ar-lein, ar ffurf trosglwyddiad BACS, neu gyda siec, arian parod neu gerdyn debyd/credyd yn eich Canolfan IBobUn/Swyddfa Bost/Banc Barclays agosaf.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**
Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor yn crynhoi’r canlyniadau a’r adborth, cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.